

---

# Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Gaerfyrddin

---

Tachwedd 2019  
Fersiwn 1.0

---

## Cynnwys

Cynnwys.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
1. Rhagair – i'w ychwanegu ar ôl 12 12 19.....	2
2. Crynodeb Gweithredol.....	3
3. Y Cyd-destun o ran Polisi Cenedlaethol.....	4
4. Polisiâu'r Cynllun Datblygu.....	5
5. Ffynonellau data presennol	
- Poblogaeth .....	6
- Cyfrif carafanau.....	6
- Y ddarpariaeth bresennol.....	8
6. Arolwg 2019 .....	9
- Y galw preswyl presennol.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
- Y galw mewn 5 mlynedd .....	10
- Y galw erbyn 2033 .....	10
- Darpariaeth symudol .....	10
- Addasrwydd llety presennol .....	10
7. Canlyniadau - sipsiwn a theithwyr .....	12
8. Canlyniadau - siewmyn teithiol .....	13
9. Casgliadau .....	14
10. Argymhellion .....	14
Atodiad 1: Diffiniadau geiriau ac ymadroddion allweddol.....	15
Atodiad 2: Rhestr wirio - ymgysylltu .....	16

## 1. Rhagair....

Mae'n bleser gennyf gyflwyno diweddariad 2019 i Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Gaerfyrddin.

Dros y 18 mis diwethaf, rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r grŵp llywio i ystyried datblygu safle awdurdod lleol newydd i sipsiwn a theithwyr yn ardal Llanelli, sy'n ymateb i ganlyniadau'r Asesiad diwethaf yn 2016. Mae aelodau o'r gymuned sipsiwn a theithwyr yn gwasanaethu ar y grŵp, ac mae eu gwaith caled bellach yn dwyn ffrwyth gan y bydd y Cyngor yn llunio cynigion ar gyfer safle newydd yn y misoedd nesaf. Bydd y safle hwn a'r lleiniau ychwanegol ar ein safle presennol ym Mhen-y-bryn yn cael eu nodi yng Nghynllun Datblygu Lleol newydd arfaethedig y Cyngor. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi gwasanaethu ar y grŵp llywio. Bydd rôl y grŵp llywio bellach yn newid. Bydd yn ein cyngori ynghylch dyluniad y safle newydd, gan sicrhau y bydd y preswylwyr yn hapus ac yn falch o fyw yno.

Mae'r Asesiad hwn yn ddogfen allweddol a fydd yn helpu i sicrhau yr ymdrinnir ag anghenion newidiol sipsiwn a theithwyr ledled y Sir.

Mae'r Cyngor yn dymuno i bob rhan o'r gymuned yn Sir Gaerfyrddin gael cartref sy'n diwallu ei hanghenion ac yn parchu ei diwylliant.

Edrychaf ymlaen at weld hyn yn cael ei wireddu.

Y Cyngorydd Linda Davies Evans  
Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai

## 2. Crynodeb Gweithredol....

Mae'r Asesiad hwn yn talu sylw i'r angen am leiniau preswyl ar gyfer sipsiwn a theithwyr, sydd wedi'u diffinio gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel a ganlyn:

(a) Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:

(1) Personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol; a

(2) Aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o sycrasau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio); a

(b) Unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.

**Diben yr Asesiad hwn** yw darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer yr angen presennol, a'r angen tebygol yn y dyfodol, am leiniau i sipsiwn a theithwyr yn Sir Gaerfyrddin. Y dyddiad sylfaenol ar gyfer yr Asesiad hwn yw 31 Hydref 2019.

**Darpariaeth lleiniau bresennol** (gweler tabl 2, tudalen 8 i gael manylion)

Ceir 30 o leiniau preifat i sipsiwn a theithwyr, ac mae gan 22 ohonynt statws cynllunio parhaol; mae gan 2 ganiatâd cynllunio dros dro ac mae 6 yn destun cais cynllunio presennol.

Ceir 15 o leiniau cyhoeddus i sipsiwn a theithwyr.

Ceir 9 llain i siewmyn teithiol.

**Anghenion lleiniau ychwanegol - sipsiwn a theithwyr** (gweler tabl 3, tudalen 12)

Yr angen sydd heb ei ddiwallu ar hyn o bryd: 19 llain

Yr angen tebygol a fydd heb ei ddiwallu mewn 5 mlynedd: 23 llain

Yr angen tebygol a fydd heb ei ddiwallu yn 2033: 31 llain

Dylid nodi y bydd angen adolygu'r tri ffigur hyn yn amodol ar ganlyniad y ceisiadau cynllunio presennol ar safleoedd sydd naill ai'n ddatblygiad anawdurdodedig neu sydd â chaniatâd cynllunio dros dro, fel y crybwyllwyd uchod.

**Anghenion lleiniau ychwanegol - siewmyn teithiol** (gweler tabl 4, tudalen 13)

Yr angen sydd heb ei ddiwallu ar hyn o bryd: 4 llain

Yr angen tebygol a fydd heb ei ddiwallu mewn 5 mlynedd: 4 llain

Yr angen tebygol a fydd heb ei ddiwallu yn 2033: 6 llain

### 3. Y Cyd-destun o ran Polisi Cenedlaethol.....

Mae'r *Cynllun Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr* (Mehffin 2018) yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnwys y cymunedau hyn yng nghymdeithas Cymru. Mae'r ddogfen yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd sipsiwn a theithwyr newydd. Mae'r asesiad o anghenion llety sipsiwn a theithwyr, a'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd lle bydd yr asesiad yn nodi bod angen, yn ofynion statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer safleoedd newydd a gwelliannau i safleoedd awdurdod lleol presennol drwy'r gronfa Grant Cyfalaf Safleoedd.

O dan adran 106 o Ddeddf 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr: Canllawiau* ym mis Mai 2015 er mwyn helpu awdurdodau lleol i lunio asesiad cadarn o anghenion llety sipsiwn a theithwyr yn eu hardaloedd. Llunnir yr Asesiad hwn yn unol â'r canllawiau. Lluniwyd ein Hasesiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2016. Fel arfer, mae angen cynnal Asesiad newydd bob 5 mlynedd. Mae'r Asesiad hwn yn cael ei wneud ar hyn o bryd er mwyn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol, a fydd yn cynnwys gwaith datblygu hyd at 2033.

Mae deddfwriaeth a chanllawiau eraill ynghylch darparu safleoedd sipsiwn a theithwyr yn cynnwys:

- Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn darparu mesurau diogelu ychwanegol i'r rheiny sy'n cynnal ac yn byw ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol.
- Cyhoeddwyd Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018 *Cynllunio ar gyfer safleoedd sipsiwn, teithwyr a siewmyn* ym mis Mehefin 2018. Mae'n darparu canllawiau wedi'u diweddarau ynghylch agweddau cynllunio ar nodi safleoedd cynaliadwy i sipsiwn a theithwyr a sut y gall awdurdodau cynllunio weithio gyda sipsiwn a theithwyr i gyflawni'r nod hwn.
- Mae *Dylunio safleoedd sipsiwn a theithwyr: canllawiau* (Mai 2015) gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys cyngor ymarferol i helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod eu safleoedd yn addas at y diben. Maent yn llywio'r gwaith o ddatblygu a gwella safleoedd sipsiwn a theithwyr yng Nghymru, ac maent yn cael eu hystyried wrth i awdurdodau ymgeisio am gyllid ar gyfer safleoedd sipsiwn a theithwyr.

Ar ôl i'r Asesiad gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, mae dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i arfer eu swyddogaethau er mwyn darparu lleiniau cartrefi symudol er mwyn diwallu'r anghenion a nodir. Gallent wneud hyn gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau - drwy ddarparu safleoedd awdurdod lleol i sipsiwn a theithwyr; cynorthwyo aelwydydd i ddatblygu safleoedd preifat a dulliau a arweinir gan y gymuned megis ymddiriedolaethau tir cymunedol.

Os bydd y Cyngor yn dymuno datblygu lleiniau neu safleoedd ychwanegol, gall wneud cais am Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru. Yr uchafswm sydd ar gael fesul safle yw £1.5 miliwn. Rhoddir blaenoriaeth i gynlluniau sy'n darparu lleiniau ychwanegol. Nid oes sicrwydd y bydd cais am gyllid yn llwyddiannus.

#### **4. Polisiâu cynllun datblygu lleol.....**

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol presennol Sir Gaerfyrddin ym mis Rhagfyr 2014. Bydd yn weithredol tan 2021, neu nes y bydd Cynllun diwygiedig yn cael ei fabwysiadu. Mae Polisi H7 yn darparu ar gyfer anghenion sipsiwn a theithwyr, gan nodi fframwaith polisi a ddefnyddir i ystyried cynigion mewn ymateb i angen a nodir.

Y nod yn yr adroddiad monitro blynyddol oedd darparu safle sipsiwn a theithwyr newydd erbyn 2017, sydd heb gael ei gyflawni. O ran Polisi H7 y CDLI, ceir hyblygrwydd yn y polisi hwnnw ar gyfer meysydd/safleoedd carafanio i sipsiwn a theithwyr, ac adlewyrchir hyn yn y caniatâd sydd wedi'i roi yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cyhoeddwyd methodoleg asesu safleoedd ddiwygiedig gan Sir Gaerfyrddin ym mis Ionawr 2019, yn seiliedig ar ganllawiau 2015 Llywodraeth Cymru ynghylch dylunio safleoedd y cyfeirir atynt uchod. Cynhaliwyd galwad am safleoedd rhwng 28 Ionawr ac 8 Ebrill 2019 ar gyfer lleiniau sipsiwn yn ardal Llanelli a siewmyn teithiol unrhyw le yn y sir. Cynigiwyd naw safle ar gyfer safleoedd sipsiwn yn ardal Llanelli. Ni chynigiwyd unrhyw safleoedd ar gyfer siewmyn teithiol.

Mae'r naw safle wedi'u hasesu gan ddefnyddio'r fethodoleg ddiwygiedig. Mae safle arfaethedig wedi'i nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo, yn ogystal â lleiniau ychwanegol ger safle presennol y Cyngor yn Llanelli, sydd y tu allan i'r ardal lle mae perygl o lifogydd.

Mae rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd yn Sir Gaerfyrddin. Mae gan awdurdod y parc ei bolisiâu ei hun ynghylch darparu safleoedd i sipsiwn a theithwyr, sydd yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw safleoedd sipsiwn, naill ai'n awdurdodedig neu'n anawdurdodedig, yn y rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Sir Gaerfyrddin, ac nid oes angen heb ei ddiwallu wedi'i nodi yn yr Asesiad hwn na'r Asesiad blaenorol.

Mae'r fersiwn ddrafft o'r trefniadau monitro a gweithredu newydd yn seiliedig ar bolisiâu drafft newydd SP9 a GTP1. Y dangosydd allweddol fydd nifer y safleoedd sipsiwn a theithwyr a'r lleiniau sy'n cael eu hadeiladu ar dir a ddyrannir yn y CDLI. Bydd dangosydd lleol o'r safleoedd a'r lleiniau sy'n cael eu hadeiladu ar dir sydd heb ei ddyrannu yn y CDLI. Y nod fydd darparu'r lleiniau angenrheidiol a nodir yn yr Asesiad hwn erbyn 2033, ac adroddir ar y cynnydd o ran cyflawni hyn bob blwyddyn. Y sbardun ar gyfer camau gweithredu pellach fydd os na roddir caniatâd cynllunio ar dir sydd wedi'i ddyrannu yn y CDLI.

## **5. Ffynonellau data presennol .....**

### **- Poblogaeth.....**

Defnyddiwyd gwybodaeth o Gyfrifiad 2011 yn yr Asesiad blaenorol, a dyma'r wybodaeth fwyaf cyfredol sydd gennym o hyd. Roedd y Cyfrifiad wedi cyfrif 120 o aelwydydd, a oedd yn cynnwys 335 o bobl, a nododd eu bod yn sipsiwn neu'n deithwyr Gwyddelig. Mae'n bosibl bod hyn yn rhoi amcangyfrif rhy isel ar y gwir ffigur.

Mae ffigurau ar gyfer Cymru a Lloegr yn eu cyfanrwydd yn dangos y canlynol:

- Mae teuluoedd sipsiwn a theithwyr yn fwy tebygol o gael plant dibynnol (45%) na theuluoedd eraill (29%).
- Mae sipsiwn a theithwyr yn llai tebygol o fod yn 65 oed neu'n hŷn (6% o gymharu ag 16% ar gyfer y boblogaeth gyfan).
- Mae sipsiwn a theithwyr yn fwy tebygol o fod yn 10 oed neu'n iau (20% o gymharu â 12% ar gyfer y boblogaeth gyfan).
- Mae sipsiwn a theithwyr yn llai tebygol na'r cyfartaledd i ystyried bod eu hiechyd eu hunain yn dda neu'n dda iawn - 70% o gymharu ag 81%.

Mae Cyfrifiad 2011 hefyd yn dangos bod sipsiwn a theithwyr Sir Gaerfyrddin yn fwy tebygol o lawer nag aelwydydd yn gyffredinol i fyw mewn cartref rhent cymdeithasol - 54% o gymharu â llai na 15% o'r holl aelwydydd. Roedd sipsiwn a theithwyr hefyd yn llai tebygol o lawer i berchen ar eu cartref eu hunain, naill ai'n yn gyfan gwbl neu drwy forgais - ychydig yn is na 32% o gymharu â bron 72% o'r holl aelwydydd.

### **- Cyfrif carafanau .....**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfrif carafanau ddwywaith y flwyddyn, yn seiliedig ar wybodaeth gan awdurdodau lleol. Mae'n cyfrif carafanau ar safleoedd a gwersylloedd sipsiwn a theithwyr awdurdodedig ac anawdurdodedig. Nid yw'n cyfrif lleiniau. Mae'n gipolwg ar ddiwrnod penodol, ac felly nid yw'n cynnwys carafanau sy'n teithio ar y pryd.

Mae'r cyfrif carafanau'n rhoi cipolwg cyffredinol ar nifer y sipsiwn a theithwyr ym mhob ardal sy'n byw mewn ffordd deithiol, ond nid yw'n cyfateb yn uniongyrchol i nifer y lleiniau sy'n cael eu defnyddio, sy'n wag, neu sy'n angenrheidiol, ac felly mae angen arolwg o aelwydydd sipsiwn a theithwyr o hyd.

Cynhaliwyd y cyfrif diwethaf ar 18 Gorffennaf 2019.

Ceir crynodeb o'r ffigurau ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Chymru gyfan ar y dudalen nesaf:

	Ar safleoedd awdurdod lleol	Ar safleoedd preifat	Ar safleoedd a oddefir	Ar safleoedd nas goddefir	Cyfanswm
Sir Gaerfyrddin	22	26	0	7	55
Cymru	635	301	64	51	1,051

Tabl 1: Cyfrif Carafanau Gorffennaf 2019. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Ers mis Ionawr 2018, mae nifer y carafanau yn Sir Gaerfyrddin wedi amrywio rhwng 53 a 62.

Er nad yw'n cyfrif lleiniau, mae'r cyfrif carafanau'n olrhain nifer y safleoedd. Ledled Cymru, mae nifer y safleoedd awdurdodedig - sef safleoedd â chaniatâd cynllunio llawn - wedi tyfu o 30 yn 2008 i dros 90 heddiw. Mae nifer y safleoedd anawdurdodedig wedi amrywio rywfaint, ond mae wedi aros tua 30 dros yr un cyfnod.

Mae nifer o safleoedd preifat yn Sir Gaerfyrddin naill ai wedi cael caniatâd cynllunio llawn neu dystysgrif cyfreithlondeb dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n debyg i'r tueddiad yng Nghymru'n gyffredinol.



**- Y ddarpariaeth bresennol .....**

<b>Y math o ddarpariaeth</b>	<b>Statws</b>	<b>Safleoedd</b>	<b>Lleiniau</b>
Safle sipiwn preifat	Caniatâd cynllunio llawn / tystysgrif cyfreithlondeb / goddefgarwch	9	22
Safle sipiwn preifat	Caniatâd cynllunio dros dro	1	2
Safle sipiwn preifat	Cais cynllunio presennol	1	6
Safle sipiwn/teithwyr cyhoeddus	Caniatâd cynllunio llawn	1	15
Iard i siewmyn teithiol	Caniatâd cynllunio llawn / tystysgrif cyfreithlondeb / goddefgarwch	3	9
Safle symudol	-	0	0
Cyfanswm		15	54

Tabl 2a: Crynodeb o'r safleoedd sipiwn, teithwyr a siewmyn teithiol presennol, yn ôl y math a'r statws, ym mis Hydref 2019. Ffynhonnell: Arolwg yr Asesiad o Anghenion Llety Sipiwn a Theithwyr 2019 a Phorth Cynllunio Sir Gaerfyrddin

Oherwydd nifer fach yr aelwydydd ym mhob lleoliad, mae rhannu'r sefyllfa ynghylch pob safle'n risg o ran torri cyfrinachedd, gan y gallai nodi gwybodaeth bersonol unigol fod yn bosibl. Er mwyn rhoi syniad o ddsbarthiad y safleoedd, mae'r rhain wedi'u rhestru yn ôl ward y Cyngor lle maent wedi'u lleoli.

Ward	Nifer y safleoedd
Bigyn	1
Bynea	1
Y Garnant	1
Glanymôr	1
Y Glyn	2
Yr Hendy	1
Hengoed	1
Llandeilo	2
Llanfihangel Aberbythych	1
Llangennech	1
Llannon	1
Pen-bre	1
Tre-lech	1

Tabl 2b: Lleoliadau safleoedd sipsiwn, teithwyr a siewmyn teithiol yn Sir Gaerfyrddin

Mae nifer y safleoedd sipsiwn/teithwyr â chaniatâd cynllunio neu statws parhaol arall wedi cynyddu o 7 i 9 ers yr Asesiad diwethaf yn 2016. Mae nifer y lleiniau ar y safleoedd hyn wedi cynyddu o 16 i 22.

Nid oes sipsiwn yn byw ar safle Westover yn Hendy-gwyn ar Daf mwyach, sydd bellach yn cael ei reoli fel safle cartrefi mewn parc. Mae'r rhan fwyaf o'r teuluoedd a fu'n byw yno bellach yn byw mewn tai rhent cymdeithasol a thai preifat yn Hendy-gwyn ar Daf a Sanclêr. Mae eraill wedi datblygu safle sipsiwn newydd ar eu tir eu hunain â chaniatâd cynllunio; wedi symud allan o'r Sir neu wedi marw.

Ceir caniatâd dros dro ar un safle â dau lain. Mae cais presennol i ychwanegu llain arall i'r safle hwn, ac i gael caniatâd cynllunio parhaol. Ceir safle o 5 llain sy'n destun cais cynllunio o fis Ebrill 2010.

## 6. Arolwg 2019 .....

Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 25 Mehefin ac 16 Hydref, ac roedd yn cynnwys sipsiwn a theithwyr ar safleoedd; mewn gwrsylloedd anawdurdodedig ac mewn tai arferol. Defnyddiwyd yr holiadur safonol o ganllawiau Llywodraeth Cymru. Nodwyd y lleoliadau o gymysgedd o'r Asesiad blaenorol; cofnodion y Cyngor a gwybodaeth gan bobl eraill a gymerodd ran yn yr arolwg. Rhoddwyd hysbyseb hefyd yn y Travellers' Times a World's Fair.

Roedd rhywun gartref yn y rhan fwyaf o'r lleiniau a'r tai, ac roedd y preswylwyr yn hapus i ateb cwestiynau'r arolwg. Cynhaliwyd un arolwg dros y ffôn. Ar un safle, nid oedd neb gartref ar dri achlysur ar wahân ac ar wahanol adegau o'r dydd, a gadawyd llythyr a manylion cyswllt. Ymwelwyd â safle arall â 5 llain deirgwaith, a gadawyd llythyr ym mhob llain, ond yr unig gyswllt oedd â dau lain lle'r oedd pobl nad ydynt yn sipsiwn yn byw, ac â rhywun a gyflogwyd gan y teuluoedd sipsiwn oedd yn gweithio ar y safle.

## Y galw preswyl presennol .....

Mae cyfanswm y galw preswyl presennol yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Aelwydydd ar wersylloedd anawdurdodedig sy'n dymuno byw ar safle
- Aelwydydd ar safleoedd sydd heb ganiatâd cynllunio, neu sydd â chaniatâd cynllunio dros dro.
- Aelwydydd gorlawn/dwbl
- Aelwydydd mewn tai arferol sy'n dymuno byw ar safle
- Mewnfudo - teuluoedd sydd ar restrau aros sy'n byw mewn ardal awdurdod lleol arall ar hyn o bryd

## Y galw mewn 5 mlynedd .....

Mae'r galw mewn 5 mlynedd - sef 2024 - yn dod o ddata arolygon gan aelwydydd sy'n cynnwys aelodau teulu dros 15 oed a hŷn nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn y galw preswyl presennol fel yr uchod.

## Y galw erbyn 2033 .....

 (cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol)

Fel yr esboniwyd yn yr Asesiad blaenorol, yr amcangyfrif gorau sydd ar gael o gyfradd twf y gymuned sipsiwn a theithwyr yw 1.5% y flwyddyn. Byddai cyfrifo cyfradd twf leol yn ddefnyddiol, ond byddai hyn yn destun posibilrwydd mawr o gangymeriadau oherwydd y boblogaeth fach. Yn ogystal, byddai angen casglu tystiolaeth dros gyfnod hir o amser, yn benodol ar gyfer aelwydydd a fyddai'n cael eu cynnwys fel angen preswyl am leiniau, yn hytrach na'r rheiny sy'n dewis byw mewn tai arferol. Oherwydd y rhesymau hyn, defnyddir cyfradd twf o 1.5%.

## Darpariaeth symudol .....

Nid oes unrhyw dystiolaeth o ran patrwm clir o wersylloedd o arolwg 2019 nac o'r cyfrif carafanau fod angen safle symudol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa hon.

## Addasrwydd llety presennol .....

Roedd y rhan fwyaf o breswylwyr y safleoedd, y rhai cyhoeddus a phreifat, yn fodlon ar leoliad a safon eu llety. Cododd preswylwyr dau safle preifat faterion ynghylch eu safleoedd. Codwyd diffyg prif gyflenwad trydan ar un safle - mae'n defnyddio generadur ar hyn o bryd - a chodwyd materion ynghylch y ddarpariaeth o doiledau ar y safle arall. Mae'r ddau fater hyn wedi'u cyfeirio at dîm Gwella Cartrefi'r Cyngor, gyda golwg ar wneud cais am fenthyciad gwella.

Mynegodd rhai o'r sipsiwn a theithwyr y cyfwelwyd â nhw, sy'n byw mewn tai arferol erbyn hyn, fwriad cryf i ddychwelyd i fyw ar safle, ac mae'r teuluoedd hyn yn anfodlon ar eu llety presennol oherwydd y rheswm hwn. Roedd teuluoedd eraill yn dal i fod yn grac ac yn ypset oherwydd y ffordd yr oeddent wedi'u gorfodi i adael safle flynyddoedd yn ôl, ond roeddent yn mwynhau byw mewn tai arferol.

Roedd un teulu'n byw mewn carafán mewn gweryll anawdurdodedig, ac felly roeddent yn anfodlon ar eu hamodau byw presennol, ond roddent yn ceisio cael eu symud i dŷ arferol.

## 7. Canlyniadau – Sipsiwn a Theithwyr.....Tabl 3

<b>Darpariaeth breswyl bresennol</b>	<b>Nifer y lleiniau</b>
A: Lleiniau awdurdod lleol sy'n cael eu defnyddio	15
B: Lleiniau preifat awdurdodedig sy'n cael eu defnyddio	16
Cyfanswm	31

<b>Darpariaeth breswyl a gynllunnir</b>	<b>Nifer y lleiniau</b>
C. Lleiniau awdurdod lleol gwag a lleiniau preifat gwag sydd ar gael	0
D. Lleiniau y disgwylir iddynt fod yn wag cyn bo hir	2
E. Lleiniau awdurdod lleol newydd a lleiniau preifat â chaniatâd cynllunio	6
Cyfanswm	8

<b>Y galw preswyl presennol</b>	<b>Y galw am leiniau</b>
F: Gwersylloedd anawdurdodedig	0
G: Datblygiadau anawdurdodedig	7
H: Lleiniau gorlawn	0
I: Tai arferol	20
J: Aelwydydd newydd i gyrraedd	0
Cyfanswm	27

<b>Aelwydydd presennol</b>	<b>Aelwydydd presennol minws y cyflenwad a ddisgwylir o fewn 12 mis</b>	<b>Aelwydydd yn y dyfodol yn ystod blwyddyn 5</b>	<b>Aelwydydd yn y dyfodol ar ddiwedd cyfnod y cynllun (2033)</b>
K. 52	44	56	64
L. Yr angen am leiniau aelwyd ychwanegol	19	23	31

## 8. Canlyniadau - siewmyn teithiol .....Tabl 4

<b>Darpariaeth breswyl bresennol</b>	<b>Nifer y lleiniau</b>
A: Lleiniau awdurdod lleol sy'n cael eu defnyddio	0
B: Lleiniau preifat awdurdodedig sy'n cael eu defnyddio	9
Cyfanswm	9

<b>Darpariaeth breswyl a gynllunnir</b>	<b>Nifer y lleiniau</b>
C. Lleiniau awdurdod lleol gwag a lleiniau preifat gwag sydd ar gael	0
D. Lleiniau y disgwylir iddynt fod yn wag cyn bo hir	0
E. Lleiniau awdurdod lleol newydd a lleiniau preifat â chaniatâd cynllunio	0
Cyfanswm	0

<b>Y galw preswyl presennol</b>	<b>Y galw am leiniau</b>
F: Gwersylloedd anawdurdodedig	0
G: Datblygiadau anawdurdodedig	0
H: Lleiniau gorlawn	4
I: Tai arferol	0
J: Aelwydydd newydd i gyrraedd	0
Cyfanswm	4

<b>Aelwydydd presennol</b>	<b>Aelwydydd presennol minws y cyflenwad a ddisgwylir o fewn 12 mis</b>	<b>Aelwydydd yn y dyfodol yn ystod blwyddyn 5</b>	<b>Aelwydydd yn y dyfodol ar ddiwedd cyfnod y cynllun (2033)</b>
K. 13	13	13	15
L. Yr angen am leiniau aelwyd ychwanegol	4	4	6

## 9. Casgliadau .....

- Mae'r rhan fwyaf o'r preswylwyr ar safleoedd cyhoeddus a phreifat yn Sir Gaerfyrddin yn fodlon ar yr amodau.
- Mae gan breswylwyr sydd wedi nodi problemau â'u eu safleoedd opsiynau i gymryd camau i ddatrys y problemau hynny.
- Nid oes aelwydydd gorlawn neu ddwbl ar leiniau sipswyn a theithwyr presennol. Mae'r angen sydd heb ei ddiwallu yn achos sipswyn a theithwyr yn bennaf ymysg teuluoedd sy'n byw mewn tai arferol ac sy'n dymuno dychwelyd i fyw ar safle. Mae hefyd angen sydd heb ei ddiwallu oherwydd y lleiniau sydd â chaniatâd cynllunio dros dro a lle bo cais cynllunio'n cael ei ystyried o hyd.
- Nodir angen sydd heb ei ddiwallu ar gyfer pedair llain ychwanegol ar gyfer siewmyn teithiol.
- Mae lleoliadau wedi'u nodi ar gyfer lleiniau ychwanegol i sipswyn a theithwyr i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol.
- Ni nodwyd tir ar gyfer siewmyn teithiol yn y galw am safleoedd yn gynharach eleni.

## 10. Argymhellion .....

1. Sicrhau bod tir ar gyfer lleiniau ychwanegol yn cael ei nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd, yn unol â'r angen sydd wedi'i amlinellu yn yr Asesiad hwn.
2. Symud ceisiadau cynllunio ar y tir hwn yn eu blaenau mor gyflym â phosibl, gyda'r nod o wneud cais am Grant Cyfalaf Safleoedd gan Lywodraeth Cymru.
3. Mabwysiadu polisiâu yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd a fydd yn ei gwneud yn bosibl i siewmyn teithiol gael caniatâd cynllunio ar dir addas.
4. Parhau i weithio gyda phreswylwyr yr holl safleoedd, y rhai cyhoeddus a phreifat, i wella'r amodau byw.



## Atodiad 1

### Diffiniadau geiriau ac ymadroddion allweddol.....

Gair neu ymadrodd	Ystyr
Bloc amwynderau	Llety brics a mortar ar safle sipsiwn/teithwyr, sydd fel arfer yn cynnwys cegin, ystafell ymolchi ac ystafell ddydd.
Carafán	Fe'i gelwir hefyd yn garafán deithiol. Cartref symudol sy'n ddigon bach i'w symud yn weddol hawdd. Defnyddir yn aml ar gyfer cysgu, hyd yn oed ar leiniau parhaol gyda rhai sefydlog neu flociau cyfleustodau. Yn y cyfrif carafanau, mae pebyll a strwythurau symudol eraill hefyd yn cael eu cyfrif fel carafanau.
Tystysgrif cyfreithlondeb	Gall pobl sy'n preswyllo ar lain sydd heb ganiatâd cynllunio wneud cais am hyn, i ddangos bod y defnydd presennol yn gyfreithlon, ac nad oes angen caniatâd cynllunio arno.
Aelwyd	Yr holl aelodau teulu sydd fel arfer yn byw gyda'i gilydd ar lain.
Llain	Ardal a ddiffinnir ar safle, lle mae aelodau o'r un teulu yn preswyllo. Fel arfer bydd yn cynnwys carafán sefydlog neu floc amwynderau, carafanau a maes parcio i gerbydau.
Caniatâd cynllunio	Yr hawl gyfreithiol i godi adeilad neu gynnal math penodol o weithgaredd ar dir. Gall caniatâd fod yn <i>barhaol</i> neu <i>dros dro</i> . Os oes gan safle sipsiwn ganiatâd cynllunio dros dro, mae'n rhaid iddo gael ei gynnwys fel <i>angen</i> yn yr Asesiad hwn.
Safle	Grŵp o leiniau o fewn yr un ffiniau. Mae'n bosibl y darperir gwasanaethau eraill ar safle, megis ardal chwarae i blant.
Carafán sefydlog	Cartref symudol sy'n cymryd lle bloc amwynderau ar safleoedd preifat.
Goddefgarwch	Lleiniau lle mae pobl wedi preswyllo arnynt ers o leiaf 10 mlynedd, felly nid oes modd i'r Cyngor gymryd camau gorfodi oherwydd terfyn amser a bennir gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Adran 171B.
Gwersyll anawdurdodedig	Carafanau sy'n aros dros dro ar dir heb ganiatâd y tirlfeddiannwr.
Datblygiad anawdurdodedig	Datblygu safle neu leiniau ychwanegol heb gael caniatâd cynllunio ymlaen llaw.

## Atodiad 2

### Rhestr wirio - ymgysylltu.....

1	Ymweld â phob aelwyd sipsiwn, teithwyr, a siewmyn teithiol a nodir drwy'r broses o ddadansoddi'r data hyd at 3 gwaith, os bydd angen. <i>Lle nad oedd yn bosibl cyfweld â phreswylwyr yn ystod yr ymweliad cyntaf, gwnaed ymweliadau dilynol â phob llain ar wahanol adegau o'r dydd ac ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos.</i>	✓
2	Cyhoeddi manylion proses yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr er mwyn galluogi aelodau o'r gymuned i ofyn am gyfweliad, ar wefan yr awdurdod lleol, gwefan y Travellers Times a chyhoeddiad World's Fair. Yn ogystal, cyhoeddwyd hysbysebion gan Lywodraeth Cymru. <i>Er y cafodd manylion yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr eu cyhoeddi yn y Travellers Times a World's Fair, roedd aelodau'r grŵp llywio yn teimlo y byddai cyhoedduswydd wyneb yn wyneb ac ar lafar yn fwy priodol i sipsiwn a theithwyr yn Sir Gaerfyrddin na defnyddio gwefan y Cyngor.</i>	✓
3	Ymgynghori â sefydliadau cymorth cymunedol perthnasol, megis y rheiny yn Atodiad 1. <i>Anfonwyd negeseuon e-bost at Sipsiwn a Theithwyr Cymru, y Showman's Guild a'r Association of Independent Showmen.</i>	✓
4	Llunio rhestr aros awdurdod lleol ar gyfer lleiniau a thai, sydd ar gael i'r gymuned ac yn cael ei rhannu. <i>Mae rhestr aros eisoes ar waith yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n cael ei rhannu'n dda.</i>	✓
5	Ymdrechu i gynnwys sipsiwn a theithwyr ar Grŵp Llywio Prosiect yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. <i>Mae 9 aelod o'r gymuned sipsiwn/teithwyr wedi bod yn gwasanaethu ar ein grŵp llywio llety ers ei ddechrau.</i>	✓
6	Sicrhau y defnyddir manylion cyswllt a ddarperir i'r awdurdod lleol gan y gymuned drwy broses yr arolwg a'u bod yn destun asesiad o anghenion. <i>Defnyddir yr holl gysylltiadau a ddarparwyd drwy'r arolwg gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfweliadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.</i>	✓
7	Ystyried cynnal digwyddiadau gwybodaeth am yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar y safle (neu'n agos iddo) er mwyn esbonio pam y dylai'r gymuned gymryd rhan ac annog preswylwyr safleoedd i ddod ag eraill a allai fod yn anhysbys i'r awdurdod lleol. <i>Ceisiodd Swyddogion Tai'r Cyngor ymgysylltu ar sail un i un â'r holl aelwydydd sipsiwn a theithwyr yr oedd y Cyngor yn ymwybodol ohonynt yn Sir Gaerfyrddin, er mwyn esbonio diben yr Asesiad a'u hannog i gymryd rhan, yn ogystal â rhannu gwybodaeth â'u ffrindiau a'u teuluoedd.</i>	✓